# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Dydd Mercher, 21 Hydref 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, P.M. Edwards, W.T. Evans, A.L. Fox, J.K. Howell, H.I. Jones, A.S.J. McPherson, J.S. Phillips, J.E. Williams a D.E. Williams.

**Hefyd yn bresennol:**
D. Bizby, Cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Corner, Swyddog Technegol
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 11.10 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Akhtar, C.A. Davies a T.J. Jones.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| E.G Thomas | 6 - Mr Gavin James Oram - Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat | Mae'r gyrrwr yn byw yn ei ward ac mae'n ei adnabod. |

## 3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 12ED AWST, 2020.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 12 Awst 2020, gan eu bod yn gywir.**

4. **LLOFNODI YN GOFNODION CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR 18FED AWST, 2020.**

4.1. **18FED AWST, 2020 (09:30 Y.B)**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu 'A' a gynhaliwyd ar 18fed Awst, 2020 [9.30 y.b] gan eu bod yn gywir.**

4.2. **18FED AWST, 2020 (12:00 Y.P)**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu 'A' a gynhaliwyd ar 18fed Awst, 2020 [9.30 y.b] gan eu bod yn gywir.**

5. **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

6. **MR GAVIN JAMES ORAM - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

(NODER: Ar ôl datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd E. Thomas y cyfarfod ac felly nid oedd yn bresennol yn ystod ei ystyriaeth gan y Pwyllgor. Llywyddwyd yr eitem hon gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd D.E. Williams.)

Cafodd y Pwyllgor wybod gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd nad oedd Mr Gavin James Oram yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod a gofynnwyd am ohirio ystyried y cais.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried cais Mr Gavin James Oram am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat tan y cyfarfod nesaf.**

7. **MR NICHOLAS SHAUN CRANE - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Ystyriodd y Pwyllgor gais gan Mr Nicholas Shaun Crane o 74 Trem y Bryn, Caerfyrddin am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Crane ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Crane yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr Nicholas Shaun Crane am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 8. MR DAVID WILLIAM DAVIES - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr David William Davies o 15 Maes y Ffair, Caerfyrddin am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Davies ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Davies yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD caniatáu cais Mr David Williams Davies am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd terfynol iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 9. MR LEE STUART JONES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod cais wedi dod i law gan Mr Lee Stuart Jones o 85 Penywern, Llanelli am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu i'r Pwyllgor gyfweld â Mr Jones ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu a chynrychiolydd Heddlu Dyfed-Powys.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Jones yn cael ei wrthod.

**PENDERFYNWYD caniatáu cais Mr Lee Stuart Jones am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rhesymau
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council